Y
Comisiwn
Etholiadol

**Trosolwg testun – DU a GI**

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Y pethau ‘i’w gwneud’ ac i ‘beidio â’u gwneud’ yn ystod ymgyrch refferendwm

Mae’r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr yn y refferendwm sydd eisiau gwybod rhagor am y rheolau ac arfer da ynghylch gweithgarwch yr ymgyrch

Cynnwys:


Cyn yr ymgyrch
Yn ystod yr ymgyrch
Cyhoeddusrwydd yr ymgyrch
Ar y diwrnod pleidleisio

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n '**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Gair i gall ar gyfer ymgyrch y refferendwm

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr yn y refferendwm sydd eisiau gwybod rhagor am y rheolau ac arfer da ynghylch gweithgarwch yr ymgyrch

## Mae'r ddogfen yn ymdrin a:

- 'Gair i Gall' allweddol ar gyfer gweithgarwch yr ymgyrch, gan gynnwys cyhoeddusrwydd yr ymgyrch a defnydd o'r gofrestr etholwyr.

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Trosolwg o wariant refferendwm
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y broses o ddynodi
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – pleidleisio drwy'r post
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y bleidlais
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y cyfrif
- Taflen ffeithiau – Hygrededd yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011
- Taflen ffeithiau: Gofynion cyfrinachedd yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

2

# Crynodeb

Rydyn ni eisiau gweld refferendwm deg ag ymgyrch weithredol a deallus sy'n ymdrin a'r pynciau.

Mae gan ymgyrchwyr rol hanfodol wrth gyflawni hyn.

Mae'r ddogfen hon yn eich arwain trwy'r 'Gair i Gall' allweddol ar gyfer gweithredu'r ymgyrch, gan egluro ble gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# Cyflwyniad

Mae gennym gyfrifoldebau statudol ynghylch refferenda a gynhelir o dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Refferenda PPERA).

Mae ymgyrchwyr yn chwarae rol hanfodol wrth helpu pleidleiswyr i ddeall y pynciau sydd dan sylw, a'u hannog i gymryd rhan yn y refferendwm.

I'ch helpu i wneud hyn, rydyn ni wedi trefnu rhestrau o bethau **dylech chi** eu gwneud a phethau **na ddylech** eu gwneud:

- Cyn bod eich ymgyrch yn cychwyn
- Yn ystod yr ymgyrch
- Yn eich cyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgyrch
- Ar y diwrnod pleidleisio

Mae'r canllawiau hyn yn perthyn i bob ymgyrchwr, hyd yn oed os nad oes angen ichi gofrestru gyda ni.

Pwysig

Dydy'r canllawiau hyn ddim yn perthyn i refferenda llywodraeth leol gan nad ydyn ni'n eu rheoleiddio.

# Cyn bod eich ymgyrch yn cychwyn

## Dylech chi:

- Ystyried pwy fydd yn gyfrifol am beth yn eich ymgyrch.
- Sicrhau eich bod yn gwybod y rheolau ar gyllid yr ymgyrch gan drefnu systemau sy'n golygu y gallwch chi gydymffurfio.
- Gofrestru gyda ni fel ymgyrchwr os ydych chi'n bwriadu gwario mwy na £10,000.
- Sicrhau bod pawb yn eich mudiad yn gwybod pwy sydd wedi'i awdurdodi i wario arian ar ymgyrchu a phwy sy'n gyfrifol am drafod rhoddion a benthyciadau.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y dogfenni hyn:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm
- Trosolwg o wariant refferendwm

4

# Yn ystod yr ymgyrch

## Dylech chi:

- Annog i bobl nad ydyn nhw ar y rhestr etholwyr i wnrud cais i gofrestru. Gallwch chi ddarganfod rhagor ynghylch pwy sy'n gallu cufrestru a chael ffurflen gais ar www.aboutmyvote.co.uk. Byddwn ni'n cyhoeddi'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau ar ein canllawiau sy'n benodol i refferenda.
- Helpu pleidleiswyr â gwybodaeth am bleidleisio post a phleidleisio dirprwy – gallwch chi ddod o hyd i ffurflenni cais a gwybodaeth ar www.aboutmyvote.co.uk.

  Os ydych chi'n datblygu eich ffurflen eich hunan, mae rhaid ichi sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd angen, neu fydd y ceisiadau'n cael eu gwrthod. Mae rhaid ichi sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni yn y fformat gywir. Dylech chi ddefnyddio ein ffurflenni ni fel canllawiau.
- Sicrhewch fod eich ymgyrchwyr yn dilyn Cod ymddygiad ar ddelio â cheisiadau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio drwy'r post – mae hyn yn eu helpu i osgoi sefyllfaoedd ble gallai eu honestrwydd neu eu cywirdeb gael ei gwestiynnu.
- Byddwch yn ymwybodol o'r dyddiadau cau ar gyfer penodi asiantwyr, ac asiantwyr i fynychu sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrifon – bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn ein canllawiau sy'n benodol i refferenda.
- Gwiriwch ein canllawiau ynghylch sut mae achlysuron agor pleidleisiau post, y broses bleidleisio a'r cyfrif yn gweithio er mwyn ichi wybod betyh fydd yn digwydd a phryd.
- Gwiriwch fod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant, rhoddion a benthyciadau'n gweithio.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y dogfenni hyn:

- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – pleidleisio drwy'r post
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y bleidlais
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – y cyfrif

## Mae rhaid ichi beidio â:

- Thalu canfaswyr Mae canfasio'n golygu ceisio perswadio etholwr i bleidleisio dros ganlyniad neilltuol. Yn ein barn ni, dydy hyn ddim yn cynnwys dosbarthu taflenni, neu ond yn gofyn i rywun a ydyn nhw'n mynd i gefnogi'r canlyniad sydd eisiau arnoch chi.
- Geisio llwgrwobrwyo pleidleiswyr mewn unrhyw ffordd. Er enghraifft ag arian, bwyd, diod, ac ati.
- Ddefnyddio bygythion, brawychiad, dichell neu dwyll i berswadio etholwyr i bleidleisio dros ganlyniad.

Pwysig

Dydyn ni ddim yn rheoleiddio'r troseddau hyn. Dylech chi wneud unrhyw gwynion i'r heddlu.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar y troseddau hyn a sut i wneud cwynion yn ein taflen ffeithiau ar gywirdeb.

## Ddefnydd o'r gofrestr etholwyr

Os ydych chi wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchwr refferendwm, mae hawl ichi gael copi sy'n rhad ac am ddim o:

- Y gofrestr etholwyr llawn ar gyfer pob ardal
- Unrhyw ddiweddariadau i'r gofrestr yn ystod cyfnod yr ymgyrch
- Rhestri'r bobl sy'n pleidleisio trwy'r post neu drwy ddirprwy ('y rhestri pleidleiswyr absennol'), gan gynnwys y rhestri diweddaredig terfynol cyn y diwrnod pleidleisio

Byddwn ni'n cyhoeddi manylion ynghylch pryd fydd y diweddariad cofrestr terfynol a'r rhestri o bleidleiswyr absennol ar gael yn ein canllawiau sy'n benodol i'r refferendwm.

### Ymgeisio am gopi o'r gofrestr a'r rhestri etholwyr absennol

Mae rhaid ichi ofyn am eich copïau oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal. Bydd angen ichi ddangos eich bod wedi cofrestru gyda ni wrth ichi wneud eich cais.

Gallwch chi ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar www.aboutmyvote.co.uk.

Gallwch chi ddod o hyd i ffurflen i wneud eich cais ar www.electoralcommission.org.uk.

Gall pleidiau gwleidyddol ofyn am gopïau o'r gofrestr etholwyr ar unrhyw amser.

Gallan nhw ei defnyddio ar gyfer pwrpasau refferendwm dim ond os ydyn nhw'n cofrestru gyda ni fel ymgyrchwr yn y refferendwm honno.

### Defnyddio'r gofrestr a'r rhestri etholwyr absennol

Pwysig

Mae'r gofrestr llawn a'r rhestri etholwyr absennol yn cynnwys data personol pobl a felly mae eu defnydd yn cael ei reoli'n ofalus iawn.

Gallwch chi eu defnyddio i:

- Helpu ichi ymgyrchu
- Wirio bod rhoddion a benthyciadau oddi wrth unigolion yn ganiataol

Mae rhaid ichi beidio â:

- Defnyddio nhw am unrhyw bwrpas arall
- Trosglwyddo copïau i unrhyw berson sydd y tu allan i'ch ymgyrch (heblaw am rai gwmnïau penodol sy'n prosesu data)

heblaw am fanylion sydd hefyd yn ymddangos yn fersiwn golygedig y gofrestr sydd ar gael i'w brynu.

# Eich cyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgyrch

## Dylech chi:

Pwysig

- Ddefnyddio argraffnodau ar yr holl ddeunydd ymgyrch, gan gynnwys safweoedd. Gweler isod i gael rhagor o wybodaeth ar argraffnodau.
- Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn fwy hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, sydd ag anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Gydymffurfio â rheolau cynllunio mewn cysylltiad â hysbysfyrddau hysbysebu a baneri mawr – gallwch chi ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.
- Cofiwch sicrhau bod posteri yn yr awyr agored yn cael eu symud yn brydlon ar ôl y refferendwm – mae rhaid ichi wneud hyn o fewn dwy wythnos.

## Mae rhaid ichi beidio â:

- Chynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir i bleidleiswyr gan y Swyddog Cyfrif.
- Thalu i bobl arddangos eich hysbysebion (oni bai eu bod yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).

# Defnyddio argraffnodau

Rydyn ni'n rheoleiddio cydymffurfio ag argraffnodau mewn refferenda.

Gwneir penderfyniadau terfynol ynghylch erlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Sut bynnag, fel arfer fyddwn ni ddim yn ystyried cymryd camau gorfodi os yw'n amlwg o'r ddogfen pwy sy'n gyfrifol am ei chynhyrchu.

## Beth yw argraffnod?

Ychwanegir argraffnod i ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod tryloywder ynghylch pwy sy'n ymgyrchu mewn refferendwm.

## Beth sydd angen ichi ei gynnwys?

Ar ddeunydd printiedig fel taflenni a phosteri, mae rhaid ichi gynnwys enw a chyfeiriad:

- Yr argraffydd
- Yr hyrwyddwr

Yr hyrwyddwr yw'r person sydd wedi awdurdodi i'r deunydd gael ei argraffu. Os ydych chi wedi cofrestru gyda ni fel ymgyrchwr refferendwm, hwn fydd y person a hysbyswyd inni fel y 'person cyfrifol' neu rywun sydd wedi'i awdurdodi ganddo i dynnu gwariant.

Os yw'r hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu ar ran mudiad, mae rhaid ichi gynnwys enw a chyfeiriad y grŵp neu'r mudiad hefyd.

Gallwch chi ddefnyddio cyfeiriadau cartref neu gyfeiriadau swyddfa.

Os ydych chi'n gosod hysbyseb mewn papur newydd, does dim angen i'ch hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd.

## Enghraifft o argraffnod

Dylai argraffnod safonol edrych fel hyn:

> Argraffwyd gan Argraffwyr Armadillo Cyf, 20 Barry Avenue, Leeds.
> Hyrwyddwyd gan J. Smith ar ran y Grŵp Ymgyrchu
> ill dao o 110 High Street, Stafford.

Os yw rhywfaint o'r deunydd yn perthyn i'r refferendwm a rhywfaint i etholiad, gallwch chi ddefnyddio argraffnod segl. Mae rhaid ichi sicrhau ei fod yn rhestru pob hyrwyddwr a phob mudiad sy'n gysylltiedig.

## Ble rydych chi'n gosod yr argraffnod?

Os yw eich deunydd ag un ochr yn unig – megis poster ffenestr – mae rhaid ichi osod yr argraffnod ar wyneb y ddogfen.

Os yw hi'n aml-ochrog, mae rhaid ichi ei osod ar y tudalen cyntaf neu ar y tudalen olaf.

### Safweoedd a deunydd electronig arall

Hefyd dylech chi osod argraffnod ar ddeunydd electronig, megis safweoedd ac ebostiau. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r mudiad y cynhyrchwyd y deunydd ar ei ran.

# Ar y diwrnod pleidleisio

## Dylech chi:

- Sicrhewch fod unrhyw rifwyr am eich ymgyrch yn dilyn ein taflen ffeithiau ar ganllawiau rhifwyr ar gyfer ymgyrchwyr.
- Sicrhewch fod unrhyw ymgyrchwyr sy'n mynychu gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ar gyfrinachedd y bleidlais. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein taflen ffeithiau ar y gofynion cyfrinachedd .
- Gydymffurfio â holl ofynion rhesymol staff yr orsaf bleidleisio neu Swyddogion Cyfrif ynghylch ymgyrchu yn agos i orsafoedd pleidleisio.

## Mae rhaid ichi beidio â:

- Mynd mewn i orsafoedd pleidleisio, oni bai eich bod chi'n pleidleisio, neu eich bod chi'n hebrwng pleidleisiwr sy'n anabl neu eich bod chi wedi cael eich penodi fel asiant refferendwm neu fel asiant pleidleisio.
- Ymgyrchu yn agos i orsafoedd pleidleisio mewn ffordd y gallai pleidleiswyr feddwl amdani fel ffordd sy'n ymosodol neu sy'n fygythiol. Er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr sy'n cludo baneri, neu gerbydau ag uchelseinwyr neu sy'n cael eu gorchuddio â deunydd yr ymgyrch.
- Rhwygo'r gofynion ar gyfrinachedd y bleidlais. Mae hon yn rhan hanfodol o'n democratiaeth a chymerir rwygiadau o ddifrif. Gallwch chi ddod o hyd i fanylion yn ein taflen ffeithiau ar y gofynion cyfrinachedd.
- Chyhoeddi polau ymadael, nag unrhyw bôl arall cyn bod y bleidlais yn cau sy'n rhoi'r argraff ei fod yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan bobl ar ôl iddyn nhw bleidleisio.

I gael rhagor o wybodaeth gweler y dogfenni hyn:

- Taflen ffeithiau: Y pethau y gall rhifwyr 'eu gwneud' a 'dim eu gwneud'
- Taflen ffeithiau: Gofynion cyfrinachedd yn refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig 2011

Pwysig

# Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 0207 271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk